



Vale School Governors' Association Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

a'r Uned Cefnogi Llywodraethwyr

Llythyr Newyddion

Nodyn gan y Cadeirydd

Mae'r Hydref wedi hen gyrraedd. Mae'r dail yn frown ac mae'r adeg pan fyddant yn edrych yn brydferth ar y coed wedi mynd heibio, wrth iddynt ddisgyn ym mhob man a llenwi'r draeniau.

Yn y tywyllwch cynyddol, rydw i wedi bod yn mwynhau ychydig heulwen, sef rhaglen "Educating Essex" ar Channel 4. Mae'r gofal bugeiliol yn Academi Passmore yn cynnig drama hynod o drawiadol, a hynod o ddadlennol hefyd. Mae'r ysgol yn sicrhau perfformiad academiaidd da ac ym mhob ffordd arall gan bod y staff yn ymboeni am eu myfyrwyr, gan ymdrechu i helpu'r rhai mwyaf anhydrin yn ogystal â'r rhai y mae ganddynt anghenion arbennig mwy amlwg. Ni fydd modd i blentyn y maent yn wynebu trafferthion difrifol yn yr ysgol neu y tu allan i'r ysgol, fanteisio ar y cyfleoedd dysgu a ddarparir ar eu cyfer. Ni fydd plant anhapus yn sicrhau perfformiad academiaidd da.

Mae gofal bugeiliol rhagorol yn arwain at ganlyniadau rhagorol. Yn aml, bydd y ffaith hon yn mynd yn angof yn yr ymdrech i godi safonau. Yn ei harolygiadau, mae Estyn yn sôn

am bwysigrwydd lles. Mae angen i blant deimlo'n ddiogel yn yr ysgol. Weithiau, yr ysgol yw'r unig man diogel yn eu bywydau. Mae angen delio ag ymddygiad gwael, ond fe allai ystyried ei achosion fod yr un mor bwysig.

Mawr obeithiaf bod eich Corff Llywodraethu yn cadw golwg ar y gofal bugeiliol yn eich ysgol. Mae modd i chi ofyn am adroddiadau gan aelodau o staff perthnasol. Mae modd i chi holi barn y cyngor ysgol. Mae modd i chi holi'r ysgol gyfan trwy gynnal arolwg priodol. Yn y cyfamser, hoffwn dynnu eich sylw at raglen yr hyfforddiant a gynigir gan yr Undeb Cefnogi Llywodraethwyr. Rhoddir lle amlwg i les ar yr agenda. Mae'r ddeddfwriaeth yn newid yn gyson. Mae angen i Lywodraethwyr fod yn ymwybodol o'r datblygiadau diweddaraf. Efallai y bydd hyfforddiant ar gyfer Llywodraethwyr ysgol yn datblygu i fod yn ofyniad gorfodol hyd yn oed.

Martin Price

Cadeirydd VSGA ac Is-Gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn, Y Barri

Issue 24

**Tymor Hydref
2011**

Pwyntiau arbennig o ddi-ddordeb:

- Ffurfiwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgol y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 llywodraethwr etholedig ynghyd â 2 gynrychiolydd etholedig sy'n llywodraethwyr sy'n rhieni

Sefydlwyd VSGA i:

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu ysgolion yn AAL Bro Morgannwg
- Hyrwyddo partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AAL
- Gweithio gyda budd-ddeiliaid i sicrhau adnoddau digonol i ysgolion yn yr AAL
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud â llywodraethu ysgolion a rheoli a darparu adnoddau i ysgolion, i awdurdodau a sefydliadau perthnasol

Taflen Wybodaeth am Wasanaethau ar gyfer Ysgolion

Ar hyn o bryd, mae'r Gyfarwyddiaeth yn paratoi'r Cytundebau Gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau'r cyngor a fydd yn cael eu cynnig i ysgolion yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, ac fel rhan o'r broses hon, mae'n gofyn am adborth gan Benaethiaid a chyrrff llywodraethu ynghylch gweithrediad y CLGau y maent yn bodoli eisoes. Cyn bo hir, anfonir e-arolwg at ysgolion mewn neges e-bost, a bydd canlyniadau'r arolwg hwn yn cyfrannu at yr adolygiad parhaus o berfformiad y cytundebau. Byddem yn ddiolchgar iawn am unrhyw adborth gan gyrff llywodraethu i'r e-arolwg hwn, neu mae croeso iddynt anfon neges e-bost at Lewis@valeofglamorgan.gov.uk yn uniongyrchol.

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru All Saints

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru All Saints yn dathlu ar ôl sicrhau canmoliaeth uchel a Statws Arweinydd Sector gan Arolygwyr. Arolygwyd yr ysgol yn y Barri yn ystod tymor yr haf dan adrannau 28 a 50 y Ddeddf Addysg.

Mae'r adroddiadau yn cydnabod bod All Saints yn ysgol lwyddiannus iawn, y mae ganddi nifer o gryfderau. Cydnabuwyd bod yr addysgu yn cynnig ystod amrywiol a chyfoethog o brofiadau dysgu, y maent yn ymgysylltu, yn herio ac yn ysgogi, a hynny trwy gyfrwng cwricwlwm eang a chytbwys.

Yn ogystal, nododd y Timau Arolygu bod y disgyblion yn trafod eu mwynhad o'r ysgol gyda chryn frwdfrydedd, gan gyflawni rôl gweithredol yn eu dysgu eu hunain, a chan gymryd balchder mawr yn eu gwaith. Mae All Saints yn un o'r ysgolion cyntaf yng Nghymru i sicrhau dyfarniad 'rhagorol' dan adran Lles, ac mae'n cynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arferion y byddai modd iddynt fod yn rhai arweiniol o fewn y sector. Dim ond mewn achosion arbennig y bydd Estyn yn rhoi dyfarniad 'Rhagorol' (mae 'Da' yn cyfateb gyda Gradd 1 dan yr hen fframwaith arolygu). Mae disgyblion yn cael cymorth ac arweiniad rhagorol, a chydabuwyd bod hwn wedi gwneud cyfraniad arwyddocaol i'w Lles, gan gael effaith gadarnhaol iawn ar eu dysgu.

Roedd yr Arolygwyr yn cydnabod y ffaith bod cymeriad Cristnogol trawiadol iawn yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol iawn ar ddatblygiad cyffredinol disgyblion. Yn ogystal, roedd yr adroddiadau yn canmol cysylltiadau cymunedol cryf yr ysgol a chefnogaeth y rhieni, yn ogystal ag ymddygiad rhagorol y disgyblion. Mae Mrs. Jane Hutt, A.C., wedi llongyfarch yr ysgol am ei hadroddiadau rhagorol. Dywedodd, "Roeddwn yn falch i weld lefel uchel y cyflawniad ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol, yn enwedig y sgôr 'rhagorol' a ddyfarnwyd ar gyfer ymdeimlad y disgyblion o les, parch a chyswllt."

Dywedodd y Pennaeth, Richard Ware, "Yn All Saints, rydym yn hynod o falch o'n hysgol a'n disgyblion. Rydym yn dîm cadarn o staff ymroddedig, ac wedi ymrwmo'n llwyr i'r gwaith o ddarparu addysg gynhwysfawr effeithiol i'n disgyblion mewn amgylchedd dysgu a estynnwyd yn ddiweddar, ac y mae'n cyfoethogi. Rydym wrth ein bodd gyda'r ddau adroddiad arolygu, y maent wedi cydnabod yr arfer da sy'n digwydd. Rydym yn arbennig o falch o fod wedi sicrhau statws arobryn Arweinydd Sector am safon Lles ein plant, ac mae hwn yn rhywbeth o'r pwys mwyaf yn ein barn ni er mwyn eu paratoi ar gyfer dyfodol heriol.

Elizabeth Martin

Cydlynnydd Hyrwyddo Ysgol



Richard Ware, pennaeth, gyda disgyblion o'r ysgol.

Talu am Brydau Ysgol a gwersi Cerddoriaeth Ar-lein

Mae'r broses o gyflwyno system daliadau ar-lein arloesol ar gyfer prydau ysgol a gwersi cerddoriaeth yn ysgolion cynradd y Fro wedi arwain at nifer o fanteision pendant ar gyfer disgyblion, rhieni a staff ysgolion. Gan ddefnyddio porthol rhyngwyd diogel i wneud taliad, mae modd i rieni dalu trwy droi at www.valeofglamorgan.gov.uk/payit.

Ni fydd angen i ddisgyblion y maent yn mynychu ysgolion sydd wedi ymrwymo i'r cynllun fynd ag arian neu sieciau gyda nhw i'r ysgol mwyach er mwyn talu am eu cinio.

Gan ymateb i safbwyntiau rhieni ac ysgolion a chan wynebu gofyniad yn y tymor hir i ddisodli sieciau fel dull talu ymarferol, mae tîm Arlwyo y Fro (Prydau Ysgol) wedi bod ar flaen y gad wrth ddatblygu menter sy'n ceisio sicrhau bod talu am brydau ysgol yn brofiad mor gyfleus ag y bo modd ar gyfer ffyrdd o fyw modern lle y mae amser rhieni yn brin, a chan geisio sicrhau bod disgyblion a staff mewn ysgolion yn trafod llai o arian. Datblygwyd system ar-lein y Fro er mwyn talu am brydau fel prosiect mewnol ar y cyd rhwng gwasanaeth Arlwyo y Fro, timau Cyllid a TGCh, a hon yw'r system gyntaf yng Nghymru i gael ei chyflwyno y tu hwnt i'r cam peilota.

Mae dros hanner yr ysgolion cynradd yn y sir wedi mabwysiadu'r system newydd ac mae wedi denu sylw'r cyfryngau cenedlaethol a sicrhau canmoliaeth ei defnyddwyr, am natur reddfol y broses dalu ar-lein, am gynnig y cyfle i wneud taliadau lluosog ar gyfer brodyr a chwiorydd yn ystod un trafodiad, ac am y tawelwch meddwl ychwanegol y mae'n ei gynnig i rieni trwy gael gwared ar yr angen i ddisgyblion drin a thrafod arian.

Mae defnyddio'r system ar-lein yn cynnig y manteision canlynol i ddisgyblion, rhieni a staff ysgolion:

- *mae'n cynnig gwasanaeth cyfleus sydd ar gael 24/7 ac y mae modd manteisio arno o'r cartref;*
- *nid yw'n costio dim i'r ysgol ac nid yw'n creu cost ychwanegol i'r cwsmer;*
- *mae'n cael gwared ar yr angen i blant gario arian gyda nhw yn yr ystafell ddosbarth;*
- *mae'n cael gwared ar yr angen i athrawon/staff gweinyddol gasglu arian/sieciau;*

- *mae'n gostwng cyfanswm yr arian a gedwir mewn swyddfeydd ysgolion;*
- *mae'n cynnig ffordd o droi at adroddiadau amser real o'r taliadau a wnaethpwyd; ac*
- *mae'n lleihau'r gost o drin a thrafod trafodion ar gyfer yr awdurdod.*

Cynigir pecyn hyfforddi llawn i ysgolion sy'n manteisio ar y gwasanaeth, gan gynnwys deunyddiau cyfathrebu awgrymedig a deunydd hyrwyddo trwy gyfrwng gwefan y Cyngor, e-gylchlythyr a sianelau cyfryngau cymdeithasol megis Twitter a Facebook. Caiff y gwaith adrodd am daliadau mewn ysgolion ei gyflawni ar sail amser real, ac mae modd troi at y wybodaeth hon trwy gyfrwng pecyn adrodd ar y we, y mae ar gael ar gyfer pob gweinyddwr ysgol ar hyn o bryd. Mae modd i rieni wneud taliadau mewn ffordd ddiogel trwy ddefnyddio cerdyn debyd neu gredyd pan fyddant yn troi at www.valeofglamorgan.gov.uk/payit neu'n ffonio Cyswllt UnFro ar 01446 700111, rhwng 8am a 6pm o ddydd Llun i ddydd Gwener. Hyd yn hyn, mae 27 o ysgolion wedi ymuno gyda'r cynllun er mis Awst 2011, ac mae hyn wedi golygu y talwyd am dros 17,500 o brydau ar-lein a dros y ffôn dros y ddau fis diwethaf: Ysgolion Cynradd Tregatwg, Cogan, Colcot, Evenlode, Fairfield, Gwenfô, High Street, Holton, Llancarfan, Llandochoau, Llanfair, Llansanwyr a Llanhari, Llanbedr-y-fro, Romilly, St Andrews, Saint-y-brid, Yr Eglwys yng Nghymru St David, ysgol Fabanod Gatholig St Helen, St Illtyd, St Joseph, St Nicholas, Victoria, y Wig a Marcroes, Y Bont-faen, Ysgol Sant Curig, Ysgol Dewi Sant ac Ysgol Nant Talwg.

Os bydd angen gwybodaeth bellach arnoch ynghylch ymuno gyda'r gwasanaeth, a fyddech gystal â chysylltu gyda Carole Tyley, Rheolwr Busnes gan ddefnyddio'r manylion isod.

Manylion Cyswllt

Carole Tyley

Rheolwr Busnes

Gwasanaethau Arlwyo y Fro

CTyley@valeofglamorgan.gov.uk

02920 20673037

Canllawiau ar gyfer Cyrff Llywodraethu ar Bolisiau Gwisg Ysgol ac Edrychiad Disgyblion (diwygiwyd Gorffennaf 2011)

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arweiniad wedi'i ddiweddarau ar gyfer cyrff llywodraethu a phenaeithiad ynghylch materion y maent yn ymwneud gyda gweithredu neu newid polisi gwisg ysgol ac edrychiad disgyblion:

<http://wales.gov.uk/topics/educationandskills/publications/guidance/uniform/?lang=en>

Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011

Daeth Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2011 newydd i rym ar 1 Medi 2011, gan ddirymu Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgolion (Cymru) 2001.

Cefndir

Mae nifer o Benaethiaid a Chyrff Llywodraethu yn paratoi eu Hadroddiad Blynyddol ar gyfer Rhieni ar ddechrau blwyddyn ysgol newydd, ar gyfer y flwyddyn academaidd flaenorol. Er enghraifft, byddai'ch Adroddiad Blynyddol a gynhyrchwyd yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf wedi canolbwyntio ar a chynnwys gwybodaeth/canlyniadau o'r flwyddyn academaidd flaenorol sef 2009/10.

Felly, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru a oes gofyn i ysgolion weithredu'r Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol 2011 newydd pan fyddant yn paratoi eu Hadroddiad Blynyddol 2010/11 i Rieni.

Cyngor Llywodraeth Cymru

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau:

- y bydd y Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol 2011 newydd a ddaeth i rym ar 1 Medi 2011 yn berthnasol i'r holl Adroddiadau Blynyddol a gyhoeddir mewn perthynas â blwyddyn academaidd 2011/12 yn unig;

- nid yw Llywodraeth Cymru yn disgwyl i Reoliadau Adroddiadau Blynyddol 2011 newydd gael eu hymgorffori ar gyfer Adroddiad Blynyddol sy'n sôn am y flwyddyn academaidd ddiwethaf sef 2010/11; a

- bydd Adroddiadau Blynyddol sy'n sôn am flwyddyn academaidd 2010/11 yn rhwym i hen Reoliadau 2001, yr oeddent mewn grym ar y pryd.

Cyngor GSU

I'r perwyl hwn, rydw i'n cynghori pob ysgol i barhau i ddefnyddio **Cylchlythyr Cyfarwyddyd 15/01 – Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr – Arweiniad i Gyrff Llywodraethu** fel deunydd cyfeirio wrth lunio'ch Adroddiad Blynyddol ar gyfer blwyddyn academaidd 2010/11. Mae rhestr gyfeirio ar dudalen olaf yr Arweiniad yn nodi'n eglur yr hyn y bydd angen i chi ei gynnwys yn y crynodeb a'r adroddiadau llawn. Maes o law, byddaf yn paratoi arweiniad wedi'i ddiweddarau ynghylch y newidiadau perthnasol yn Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol newydd 2011.

Jeremy Morgan

Uned Cefnogi Llywodraethwyr

Tîm Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Corfforaethol – Diweddariad 2011/12

Croeso i ddiweddariad cyntaf y Tîm Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Corfforaethol. Diben y diweddariad hwn yw rhoi gwybod i chi am rai o'r newidiadau a wnaethpwyd i'r gwasanaeth yn ddiweddar.

Swyddog Iechyd a Diogelwch Newydd ar gyfer Ysgolion

Yn dilyn newidiadau a wnaethpwyd yn ddiweddar i strwythur y tîm, Dave Porter yw'r Swyddog Iechyd a Diogelwch newydd dros Ddysgu a Datblygu. Mae Dave wedi bod gyda'r Cyngor er 2002 ac mae wedi bod gyda'r tîm er 2008. Mae'r rôl hwn yn un addas iawn iddo ac mae'n edrych ymlaen at weithio gyda'r holl ysgolion.

Newidiadau mewn Polisiâu

Yn ddiweddar, rydym wedi adolygu'r Polisi Iechyd a Diogelwch Corfforaethol er mwyn amlygu ymrwymiad parhaus y cyngor tuag at iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle mewn ffordd eglur. Yn ogystal, rydym wedi cyflwyno Polisi Gweithio Unigol newydd ac rydym yn edrych ymlaen at gyflwyno Polisi Iechyd Galwedigaethol newydd, y mae'r gwaith ymgynghori ar ei gyfer ar fin cael ei gwblhau. Yn dilyn cymeradwyaeth y Cabinet, bydd yr holl bolisiâu newydd ar gael ar fewnwyd y staff.

Adrodd damweiniau a/neu ddigwyddiadau

Yn dilyn adolygiad o ystadegau ynghylch damweiniau/digwyddiadau, ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod tan adrodd yn digwydd mewn ysgolion. Cynhelir adolygiad o'r arweiniad a ddarparir i ysgolion a darparir manylion i ysgolion yn y dyfodol agos.

Pynciau Hyfforddiant

Unwaith eto, bydd y Tîm Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol Corfforaethol yn cynnal sesiwn hyfforddi ar gyfer Llywodraethwyr yn ystod y gwanwyn ynghylch rhai materion allweddol e.e. rheoli contractwyr, deall diogelu rhag tân.

Byddai'r Tîm Iechyd a Diogelwch ac Iechyd Galwedigaethol yn croesawu'ch presenoldeb ac os oes gennych fater pwysig yr hoffech i ni ei ystyried, mae croeso i chi gysylltu gyda Dave Porter neu Maggie Pinkney trwy anfon e-bost at DPorter@valeofglamorgan.gov.uk neu MCPinkney@valeofglamorgan.gov.uk.

Cymuned Ddysgu Penarth 'ar y trywydd iawn'

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi llwyddo i sicrhau grant o £34m gan Lywodraeth Cymru tuag at gost Cymuned Ddysgu Penarth.

Mae'r cynllun uchelgeisiol, a fydd yn costio £48m, yn cynnwys ysgol gyfun brif ffrwd wedi'i chydleoli gydag ysgol sy'n darparu addysg a gofal ar gyfer disgyblion y mae ganddynt sbectrwm eang o anghenion dysgu. Mae'n cynnig cyfle unigryw i ddarparu cyfleusterau hyblyg ac addas i'r diben, a fydd yn cynorthwyo dull arloesol o ddarparu addysg.

Bydd y cyfleusterau newydd yn cynnig y cyfle i staff a disgyblion fynd y tu hwnt i ffiniau cyfredol dysgu ac addysgu, gan ailgynllunio'r gwasanaeth addysg ar gyfer pobl ifanc a dysgwyr gydol oes yn yr ardal. Yn ogystal, bydd y weledigaeth arloesol yn darparu cyfleusterau modern a hyblyg er mwyn disodli adeiladau Ysgol St Cyres ac Ysgol Arbennig Ysgol Erw'r Delyn, Ysgol Arbennig Ysgol Maes Dyfan ac Ysgol Arbennig Ashgrove.



Gan bod y cyllid angenrheidiol wedi cael ei sicrhau, y cam nesaf fydd sicrhau cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y cam o ad-drefnu'r ysgolion. Bydd hyn yn gofyn am broses statudol a gychwynnodd gydag ymgynghoriad am y cynigion. Daeth yr ymgynghoriad hwn i ben ar 17 Tachwedd 2011.

Dilynir yr ymgynghoriad gan hysbysiad statudol, cyfnod o fis lle y bydd modd cyfleu unrhyw wrthwynebiadau ac yn olaf, penderfyniad gan Lywodraeth Cymru. Ni ddisgwylir i'r broses statudol gael ei chwblhau cyn yr haf 2012.

Yn ogystal, bydd angen sicrhau caniatâd cynllunio a bydd hwn yn cael ei geisio yn gynnar yn ystod 2012. Rhagwelir y bydd y gwaith yn cychwyn ar y safle ym mis Hydref 2012, ar ôl sicrhau'r holl gymeradwyaeth angenrheidiol.

Llwyddiant yn y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Cynorthwywyr Cymorth Dysgu gweithgar

Yn ddiweddar, mae pedwar Cynorthwydd Cymorth Dysgu (CCD) y maent yn gweithio yn y Cyfnod Sylfaen yn ysgolion y Fro, wedi bod yn dathlu eu llwyddiant wrth gwblhau a sicrhau achrediad ym Modiwlau Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cymru.

Mae Charlotte Jones a Paula Lyden o Ysgol Gynradd Holton a Sue Davies a Lisa Martinson o Ysgol Feithrin Tregatwg oll wedi astudio a chyflwyno aseiniadau i Brifysgol Bangor dros y flwyddyn ddiwethaf, a bu eu holl waith caled yn werth y drafferth.

Ariannwyd y cynllun peilot gan Lywodraeth Cymru ac roedd modd i Gynorthwywyr Cymorth Dysgu ar draws Cymru gymryd rhan ynddo. Bro Morgannwg oedd yr unig Awdurdod Lleol yn Ne Cymru i gofrestru ymgeiswyr ar gyfer yr achrediad hwn. Goruchwyliwyd y cynllun gan Amanda Gould (Cyngorydd Cyswllt ar gyfer y Cyfnod Sylfaen), a fu'n cynnig hyfforddiant a chymorth i'r ymgeiswyr gyda phob aseiniad. Gosodwyd a marciwyd yr aseiniadau gan adran addysg Prifysgol Bangor.

Bydd yr achrediad hwn yn rhoi pwyntiau i'r ymgeiswyr, y bydd modd iddynt gyfrif tuag at gwrs gradd addysg uwch.

Rydym oll yn falch iawn o'u cyflawniad ac yn gobeithio y bydd eu llwyddiant yn cynnig yr ysgogiad angenrheidiol iddynt i fanteisio ar hyfforddiant pellach ar lefel uwch.

Amanda Gould

Cyngorydd Cyswllt ar gyfer y Cyfnod Sylfaen

Archesgob yn ymweld ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru All Saints

Ar 6 Gorffennaf, bu disgyblion balch Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru All Saints yn y Barri yn rhoi taith i Archesgob Cymru o gwmpas eu hysgol, a estynnwyd yn ddiweddar. Roedd yr Archesgob, Dr. Barry Morgan, yn ymweld â'r ysgol er mwyn cysegru'r adeilad newydd. Dangoswyd yr ystafell TGCh newydd iddo, sy'n cynnwys 30 o gyfrifiaduron, ynghyd â'r ystafelloedd dosbarth newydd llachar, y maent yn terfynu statws cynllun agored yr ysgol, gan roi llawer mwy o le i bawb ddysgu a datblygu. Yn ogystal, ymwelodd â'r Ardd Ffydd brydferth a seiliwyd ar siâp croes Geltaidd, a'r Llwybr Antur yn yr awyr agored, lle y mae modd i ddisgyblion gadw'n heini a chael hwyl ar yr un pryd.

Ymunodd yr Archesgob gyda'r disgyblion, yr athrawon, y llywodraethwyr a chyfeillion yr ysgol mewn Gwasanaeth Gysegru. Rhoddwyd yr Anerchiad Groesawu gan y Tad Adrian Berry, Cadeirydd y Llywodraethwyr, ac arweiniwyd y gweddiau gan ddisgyblion a oedd yn cynrychioli pob dosbarth. Bu talentau cerddorol côr a cherddorfa yr ysgol yn cyfrannu at y gwasanaeth hefyd.

Yn ystod ei anerchiad, dywedodd yr Archesgob, "Mae hon yn ysgol wych nawr, ac rydych yn ffodus iawn, ond nid adeilad yw'r peth sy'n gwneud unrhyw ysgol yn un arbennig, ond ei hysbryd – sut yr ydym yn ymboeni am ein gilydd – ac mae'n amlwg i mi bod hon yn ysgol hapus iawn."

Bu'r Pennaeth, Richard Ware, yn talu teyrnged i'r bobl niferus a wnaeth sicrhau bod yr estyniad wedi cael ei adeiladu, gan gynnwys yr athrawon a wnaeth barhau i arddel safonau uchel yn ystod y gwaith adeiladu. Dywedodd, "Mae arwyddair ein hysgol yn cloriannu'r cyfan, Fel y mae dwylo niferus yn adeiladu t, mae cymaint o galonnau yn creu ysgol. Mae'r estyniad hwn wedi rhoi llawer mwy o le i ni. Nid yw'r plant yn rhannu ystafelloedd dosbarth agored mwyach, ond mae ganddynt eu hystafelloedd helaeth eu hunain. Mae hyn wedi cael effaith ar ansawdd yr addysgu, gan wella'n safonau uchel presennol."

Elizabeth Martin

Cydlynnydd Hyrwyddo Ysgol
Ysgol Gynradd All Saints
Y Barri




Adroddiad Iechyd Cyhoeddus – Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Mae'n bleser gennyf amlygu fy adroddiad blynyddol. Yn yr adroddiad hwn, rydw i wedi dewis canolbwyntio ar iechyd plant a'u teuluoedd. Mae tystiolaeth yn dangos y bydd buddsoddi ein hadnodd yn y blynyddoedd cynnar yn ein galluogi i newid iechyd ein poblogaeth mewn ffordd sylweddol. Byddaf yn canolbwyntio ar y sialensiau allweddol y bydd angen rhoi sylw iddynt er mwyn sicrhau gwelliannau iechyd cynaliadwy, gan gydnabod nad oes modd i un gwasanaeth gyflawni'r gwelliannau iechyd hyn ar ei ben ei hun. Mae gweithio mewn partneriaeth ar lefel leol, cenedlaethol a rhyngwladol yn hanfodol er mwyn sicrhau na fydd gorchmynion yn y tymor byr yn tynnu oddi wrth ein nod o sicrhau iechyd a lles gwell.

O ystyried ein hadnoddau presennol a'r sialensiau y maent yn effeithio ar iechyd a lles ein poblogaeth, mae angen canolbwyntio ar blant a'u teuluoedd.

Os hoffech gopi neu fersiwn Cymraeg, a fydddech gystal â chysylltu gyda Heather Kean ar 02920 556028 neu anfonwch e-bost at Heather.Kean@wales.nhs.uk.

Dr Sharon Hopkins
Cyfarwyddwr Iechyd y Cyhoedd
Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro



Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2010-12

Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig ac un Cynrychiolydd Rhieni-Lywodraethwyr o'r sector Cynradd ac un arall o'r sector Uwchradd.

Rhif	Teitl	Llythyren gyntaf	Cyfenw	Ysgol
1	Cyng Mrs M	Alexander	Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd High Street	
2	Dr C	Brown	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Wig a Marcroes	
3	Mr N	Craggs	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Gwenfô	
4	Cyng Mr C	Elmore	Ysgol Gynradd Holton	
5	Mrs M	Gibbs	Meithrinfa Tregatwg ac Ysgol Llanilltud Fawr	
6	Mrs S	Hodges	Ysgol Sant Baruc ac Ysgol Gwaun y Nant	
7	Mr K	Ingram	Ysgol Ashgrove ac Ysgol Gynradd Albert	
8	Cyng Mr G	Kemp	Ysgol Gyfun y Bont-faen ac Ysgol Gynradd Rhws	
9	Mrs A	Males	Ysgol Gynradd Cogan ac Ysgol Gyfun St Cyres	
10	Mr M	Mason	Ysgol Gynradd Llanilltud Fawr	
11	Dr M	Price	Ysgol Gatholig St Richard Gwyn	
12	Mr P	Sampson	Ysgol Gynradd Tregatwg	
13	Mr D	Treharne	Ysgol Gwaun y Nant	
14	Cyng Mr M	Wilson	Ysgol Gynradd Albert ac Ysgol Gynradd Victoria	
15	LLE GWAG			
CRhL	Mr P	Lewis	Ysgol Gyfun y Bont-faen	
CRhL	Mr S	Williams	Ysgol Gynradd y Rhws	
Arsylwr	Mrs G	Evans	Ysgol Iolo Morganwg	
Arsylwr	Mr G	Scott	Ysgol Gynradd High Street	

Diweddariad AD

Rheoliadau Gweithwyr Asiantaeth

Daeth yr uchod i rym ar 1 Hydref. Y brif effaith yw bod hawl gan staff y maent wedi cwblhau 12 wythnos o wasanaeth fanteisio ar gyfradd gyflog gymharol. Bydd asiantaethau yn gofyn am y wybodaeth hon gan y cyflogwr ac mae gennym rwymedigaeth i'w darparu. Yn ogystal, rydw i wedi cynnwys gwybodaeth ychwanegol gan BIS am y mater hwn. Credaf y bydd rhai ystyriaethau pellach yn codi o hyn mewn perthynas â chyflog athrawon a byddaf yn rhoi unrhyw wybodaeth berthnasol ychwanegol i chi os yw hynny'n briodol. Yn ogystal, gofynnwyd i mi atgoffa Ysgolion bod yn rhaid cyflogi athrawon cyflenwi naill ai trwy asiantaeth gyflenwi neu o restr gyflenwi y Fro. Nid oes modd cyflogi rhywun sy'n cynnig gwasanaeth dan drefniant hunangyflogedig gan na fydd modd i ni sicrhau bod camau gwirio hanfodol cyn cyflogi wedi cael eu cynnal, na gwneud darpariaethau cyfloges.

Newidiadau i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol (STPCD) 2011

Gwnaethpwyd 3 newid, fel a ganlyn:

- Taliad o £250 ar gyfer athrawon heb gymhwyso y maent yn ennill llai nag £21000 FTE.
- Gostyngiad yng nghyfanswm y diwrnodau gwaith i 194 er mwyn ystyried Jiwbilî Diemwnt y Frenhines.
- Cael gwared ar y ddarpariaeth i gynyddu ISR Pennaeth gymaint â hyd at ddau gr p, y mae wedi cael ei ddisodli gan y penderfyniad i gyflwyno cyfyngiad o 25% ar daliadau dewisol ar gyfer cyflog Penaeithiad mewn amgylchiadau pan fo ysgolion yn peri pryder, pan geir anawsterau recriwtio neu gadw, neu pan fydd penaeithiad yn rheoli mwy nag un ysgol ar yr un pryd dan drefniant dros dro. Mae'r ddarpariaeth ddiwygiedig yn ymddangos yn Adran 12 STPCD.

Contractau Dros Dro

Cofiwch ei bod yn bwysig bod contractau dros dro yn cael eu rhoi am resymau go iawn, dim ond er mwyn osgoi unrhyw sialensiau diswyddo annheg (h.y. ni ddylent gael eu defnyddio fel rhyw fath o gyfnod prawf). Mae modd i chi weld '*Guidance for Short and Fixed term contracts*' ar School Staff Net: Learning & Development: Schools Page: HR for Schools: Guidance).

Cofiwch bod yr holl bolisiau Ysgol a gwybodaeth/arweiniad ychwanegol ar gael ar Staff Net. Mae rhan fwyaf y dogfennau ar gael fel dogfennau PDF, ond os bydd angen fersiynau Word arnoch, mae modd darparu'r rhain. Mawr obeithiaf bod hyn o gymorth i chi. Os byddai unrhyw ran o'r wybodaeth o ddefnydd i eraill yn eich ysgol, a fydddech gystal â'i throsglwyddo iddynt. Os bydd angen gwybodaeth bellach arnoch, a fydddech gystal â rhoi gwybod i mi.

Sue Alderman

Prif Swyddog Personél

Gwasanaeth Adnoddau Dynol

tel/ffôn: 01446 709870

e-mail/e-bost: STAlderman@valeofglamorgan.gov.uk

Prosiect *Get Back on Track* ar gyfer Rhieni

Mae Gwasanaeth Addysg Oedolion ac Addysg Gymunedol Cyngor y Fro wedi sefydlu prosiect newydd o'r enw "Get Back on Track", sy'n cynorthwyo rhieni trwy eu helpu i wella a meithrin sgiliau newydd. Mae dysgwyr yn ardal Wledig y Fro wedi dangos diddordeb brwd mewn cymryd rhan yn y prosiect hwn. Cyflwynwyd Cwrs Cyfrifiaduron 10 wythnos yn Ysgol Gynradd Sain Tathan, lle y bu'r sesiynau yn canolbwyntio ar alluogi rhieni i gynorthwyo'u plentyn gydag aseiniadau gwaith cartref. Bu'r rhieni yn dysgu sgiliau a oedd yn ymwneud gyda defnyddio Word er mwyn creu'r poster gorau, chwilio am wybodaeth ar y rhyngwrwyd a pharatoi cyflwyniadau Powerpoint diddorol.

Cyflwynwyd prosiect pontio'r cenedlaethau yn Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr am 6 wythnos, o'r enw Mathemateg ar gyfer Rhieni. Bu rhieni yn mynychu sesiynau Mathemateg gyda'u plentyn ar ôl ysgol, gan ddysgu sut i gael hwyl gyda mathemateg trwy chwarae gemau syml. Bu'r cwrs yn hynod o lwyddiannus ac fe barhaodd trwy gydol tymor yr hydref. Targedir Rhieni blwyddyn 7 fel rhan o weithgarwch pontio i Ysgol Llanilltud Fawr.

Os oes gennych chi ddiddordeb mewn cael gwybod mwy, cysylltwch â'r canlynol

Ardal Wledig y Fro: Sally Perini 01446 773831

Y Barri: Debbie Lewis 01446 733762

Penarth: Heather Todd-Bennett 029 2070 1569

Lleihau Gollyngiadau Carbon ein Hadeiladu

Eleni, gwnaethpwyd gwaith pellach i gyflawni cynllun rheoli carbon Cyngor Bro Morgannwg. Rydym wedi cynnal amrywiaeth o gynlluniau, y maent wedi ein helpu i leihau gollyngiadau carbon blynyddol Cyngor y Fro. Cynhaliwyd y cynlluniau hyn mewn ysgolion, canolfannau hamdden, cartrefi ymddeol a chanolfannau cymunedol, ac maent wedi dangos canlyniadau gwych hyd yn hyn. Rydym wedi defnyddio nifer o wahanol dechnolegau megis inswleiddio, goleuadau LED a systemau rheoli goleuadau awtomatig, ac mae'r rhain wedi golygu bod adeiladau'r Fro yn defnyddio ynni mewn ffordd fwy effeithlon.

Mae'r gwaith a wnaethpwyd hyd yn hyn wedi arbed dros 900 tonnell o CO₂ y flwyddyn, a byddant yn arbed dros £120,000 mewn blwyddyn. Gyda phrisiau ynni yn codi, bydd maint yr arbedion yn cynyddu, a bydd rheolwyr yr adeiladau y maent yn rhan o'r cynllun yn gweld y manteision. Ar hyn o bryd, rydym yn cynllunio prosiectau a fydd yn arbed 500 tonnell pellach o CO₂ ac rydym bob amser yn edrych am dechnolegau newydd cyffrous a fydd yn ein helpu i gyrraedd ein nod, sef gostyngiad o 20% yng nghyfanswm y gollyngiadau erbyn 2015/16 a 30% erbyn 2020.

Rydym wedi sicrhau llwyddiant mawr gydag ysgolion y Fro, gan ddarganfod bod pawb yn awyddus iawn i leihau effaith eu hysgol ar yr amgylchedd. Gyda'r gaeaf ar ei ffordd, bydd nifer o ysgolion yn dechrau gweld budd y technolegau a osodwyd oherwydd y bydd yr ysgolion yn gynhesach a bydd y biliau ynni yn is.

Rydym yn gweithio ar brosiectau inswleiddio olaf y cynllun rheoli carbon ac yn dechrau canolbwyntio ar ailosod goleuadau a disodli offer trydanol (e.e. sychwyr dwylo, monitorau CRT, meddalwedd diffodd ac ati).

Wrth i ni symud tuag at y mathau hyn o dechnoleg, bydd y manteision yn dod yn fwyfwy amlwg i staff a disgyblion, gyda goleuadau ac offer gwell.

Os oes gennych unrhyw syniadau ynghylch sut i wella pa mor effeithlon y mae'ch ysgol yn defnyddio ynni, neu os hoffech wneud ymholiad am gynllun benthyciad Salix, cysylltwch â chynorthwydd y cynllun rheoli carbon, Ben Markham ar **01446 709724** neu anfonwch e-bost at bmarkham@valeofglamorgan.gov.uk.

Mewn cysylltiad â Cyngor Bro Morgannwg

Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Cyngor Bro Morgannwg,
Gwasanaeth Gwella Ysgolion
Provincial House, Kendrick Road, Y Barry CF62 8BF

Manylion cyswllt:

John Sparks

Pennaeth Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709106 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

Jeremy Morgan

Swyddog Uwch Cymorth i Lywodraethwyr
Ffôn: 01446 709108 Ffacs: 01446 701820
E-bost: JerMorgan@valeofglamorgan.gov.uk



Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post:

VSGA

Uned Cymorth i Lywodraethwyr
Cyngor Bro Morgannwg
Gwasanaeth Gwella Ysgolion
Provincial House
Kendrick Road, Barry CF62 4BF